

2019 Rhif (Cy. )

2019 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019

The A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Junction 23 (Llanddulas) and Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2019

*Gwnaed* 14 Ionawr 2019

*Made* 14 January 2019

*Yn dod i rym* 21 Ionawr 2019

*Coming into force* 21 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar Cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbyttfordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 21 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Junction 23 (Llanddulas) and Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy County Borough) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 21 January 2019.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## 2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 ar 8 Ionawr 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cerbyttffordd tua’r dwyrain cefnffordd Caer i Fangor yr A55 rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol) ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

### Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

### Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Ionawr 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## 2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the eastbound carriageway of the A55 Chester to Bangor trunk road between Junction 23 (Llanddulas) and Junction 24 (Faenol Interchange) in Conwy County Borough;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 on 21 January 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

### Application

6. The prohibitions in article 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

14 January 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN RHWNG CYFFORDD 23 (LLANDDULAS) A CHYFFORDD 24 (CYFNEWIDFA'R FAENOL), BWRDEISTREF SIROL CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 23 (Llanddulas) a Chyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Bwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol).

Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd (ac eithrio cerbydau sy'n lletach na 3.0 metr), pob beiciwr a phob cerddwr sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar y ffordd ymadael wrth Gyffordd 23 a'r A547 drwy Abergele a Llanddulas i ailymuno â'r A55 ar y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24.

Caiff cerbydau sy'n lletach na 3.0 metr eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybr arall a chânt eu parcio dros nos hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn hysbysu llwythi llydan am y cyfyngiad.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym, ac yn weithredol dros nos (19:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch), rhwng 21 Ionawr 2019 ac 8 Chwefror 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

**THE A55 TRUNK ROAD (EASTBOUND CARRIAGEWAY BETWEEN JUNCTION 23 (LLANDDULAS) AND JUNCTION 24 (FAENOL INTERCHANGE), CONWY COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 23 (Llanddulas) and Junction 24 (Faenol Interchange), Conwy County Borough.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the A55 eastbound carriageway that extends from the centre point of Junction 23 (Llanddulas) to the centre point of Junction 24 (Faenol Interchange).

The alternative route for all vehicles (other than vehicles over 3.0 metres wide), cyclists and pedestrians travelling eastbound will be via the exit slip road at Junction 23 and the A547 through Abergele and Llanddulas to re-join the A55 via the eastbound entry slip road at Junction 24.

Vehicles over 3.0 metres wide will be prohibited from using the alternative route and will be parked up overnight until the traffic management is removed. North Wales Police will notify wide loads of the restriction.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force and operate overnight (19:00 hours until 06:00 hours) from 21 January 2019 until 8 February 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Orders Branch, Transport,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government